



14eg Dachwedd 2014

EICH HAWL I OFYN AM GYFARFOD GYDA CHORFF LLYWODRAETHU'R YSGOL

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod

Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion cofrestredig lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod. Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS). Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

Ysgol Brynrefail
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AD

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetingsstatutory-guidance/?lang=cy>

Mae'n parhau i fod yn ofynnol i gyrff llywodraethol barhau i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni, bydd copi o'r adroddiad llawn yma yn cael ei roi ar wefan yr ysgol ar ddechrau mis Rhagfyr 2013.

Yn gywir
Eifion Jones
Prifathro